**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L

# 2004 Rhif (Cy. )

# PRIFFYRDD, CYMRU

## Rheoliadau Gweithfeydd Stryd (Ffioedd Archwilio) (Diwygio) (Cymru) 2004

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn cynyddu, o £20 i £21, y ffi sy'n daladwy gan ymgymerwyr am archwiliadau o'u gwaith gan awdurdodau stryd yng Nghymru o dan reoliad 3(1) o Reoliadau Gweithfeydd Stryd (Ffioedd Archwilio) 1992 (O.S.1992/1688).

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L

# 2004 Rhif (Cy. )

# PRIFFYRDD, CYMRU

## Rheoliadau Gweithfeydd Stryd (Ffioedd Archwilio) (Diwygio) (Cymru) 2004

*Wedi'u gwneud* *2004*

*Yn dod i rym* *30 Gorffennaf 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 75 a 104(1) o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gweithfeydd Stryd 1991(**1**), ac sy'n arferadwy gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â Chymru(**2**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.** — (1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gweithfeydd Stryd (Ffioedd Archwilio) (Diwygio) (Cymru) 2004 ac maent yn dod i rym ar 30 Gorffennaf 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

**Cynnydd yn y ffi archwilio**

**2.** Yn rheoliad 3(1) o Reoliadau Gweithfeydd Stryd (Ffioedd Archwilio) 1992(**3**) amnewdir am y ffigur "£20" yno y ffigur "£21".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**ch**)

Dyddiad

---

(**1**) 1991 p.22.

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru: *gweler* Erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo.

(**3**) O.S. 1992/1688; diwygiwyd rheoliad 3(1) gan O.S. 1998/978, O.S. 2001/ 2681 (Cy.222) ac O.S. 2002/3181 (Cy.297).

(**ch**) 1998 p.38.

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol